HM Government

# Partneriaeth Sifil

## Cydnabyddiaeth gyfreithiol i barau un-rhyw

## O Ragfyr 2005

## Beth yw partneriaeth sifil?

**O Ragfyr 2005, gall parau un-rhyw ledled y DU gael cydnabyddiaeth gyfreithiol i'w perthynas. O hynny ymlaen, bydd gan unrhyw bâr sy'n cofrestru partneriaeth sifil yr un hawliau â phâr priod o ran pethau fel treth, nawdd cymdeithasol, etifeddu a buddion gweithle. Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am bartneriaeth sifil yng Nghymru a Lloegr.**

## Pwy gaiff gofrestru?

**Pwy gaiff gofrestru?**

- O'r un rhyw
- Yn 16 oed neu drosodd (gyda chydsyniad os o dan 18 oed)
- Heb fod yn briod nac mewn partneriaeth sifil yn barod
- Heb fod yn briod nac mewn partneriaeth sifil yn barod

**gofrestru partneriaeth sifil.**

## Sut cofrestrwn bartneriaeth sifil?

Yn gyntaf oll, byddwch yn rhoi rhybudd o'ch bwriad i gofrestru i'ch Swyddfa Gofrestru leol. Wedyn, ar ôl 15 diwrnod clir, cewch gofrestru'ch partneriaeth sifil drwy lofnodi atodlen partneriaeth sifil yng ngŵydd y cofrestrydd a'ch dau dyst. Bydd yn rhaid ichi dalu ffioedd i roi rhybudd ac i gofrestru. Yng Nghymru, gallwch roi rhybudd a chofrestru yn Gymraeg a Saesneg.

**Y pethau pwysicaf i'w gwneud yw:**

1. **Mynnu cyngor a gwybodaeth.** Gall eich Swyddfa Gofrestru leol neu wefan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol helpu – **www.gro.gov.uk**
2. **Penderfynu ble'r hoffech chi gofrestru.** Cewch gofrestru yn yr un math o leoedd ag y byddech yn priodi: swyddfa gofrestru neu gyrchfan fel gwesty, os yw wedi'i chymeradwyo at y diben. Ond ni chewch gofrestru mewn addoldy.
3. **Pennu'r dyddiad.** Os ydych chi'n cofrestru mewn cyrchfan wedi'i chymeradwyo, gwnewch yn siŵr y gall y cofrestrydd fod yn bresennol y diwrnod hwnnw.

4. **Trefnwch i roi rhybudd am eich bwriad i gofrestru.** Mae'n rhaid i'r ddau ohonoch roi rhybudd o leiaf 15 diwrnod clir cyn y dyddiad cofrestru. Ni waeth ble y cofrestrwch, rhaid trefnu i'r ddau ohonoch roi rhybudd i Swyddfa Gofrestru yn yr ardal lle buoch yn byw am 7 diwrnod cyn cyflwyno rhybudd. Bydd rhaid ichi fynd â dogfennau arbennig (fel eich tystysgrif geni) gyda chi – gwiriwch ymlaen llaw gyda'r cofrestrydd.

**Enghraifft**

Mae Sam a Ceri yn byw yng Ngheredigion a neilltuant le mewn gwesty yn Abertawe ar gyfer eu partneriaeth sifil. Gwnânt drefniadau gyda'r gyrchfan, gan wirio gyda'r Swyddfa Gofrestru yn Abertawe fod modd i'r cofrestrydd ddod ar y dyddiad sydd mewn golwg ganddynt. Mae angen i'r ddau ohonynt roi rhybudd i'w Swyddfa Gofrestru leol yng Ngheredigion o leiaf 15 diwrnod clir cyn eu dyddiad cofrestru. Felly, os ydynt am gofrestru ar 19 Ionawr, rhaid i'r ddau ohonynt roi rhybudd ar neu cyn 3 Ionawr.

5. **Cofrestrwch.** Ffurfir partneriaeth sifil wrth i'r ddau berson lofnodi'r atodlen partneriaeth sifil yng ngŵydd y cofrestrydd a'u dau dyst. Os hoffech seremoni yng nghyswllt y ffurfioldeb hwn, dylech drafod y mater â'r Swyddfa Gofrestru a'r gyrchfan. Fodd bynnag, ni ellir cynnal gwasanaeth crefyddol tra bo'r cofrestrydd yn gweinyddu wrth ffurfio partneriaeth sifil.

## Perthnasau tramor

Caiff rhai perthnasau un-rhyw tramor eu trin yn awtomatig fel partneriaethau sifil yn y DU. Os ydych eisoes wedi cofrestru neu briodi mewn gwlad dramor, hwyrach na fydd angen ichi gofrestru eto i gael eich cydnabod yn gyfreithiol fel partneriaid sifil yn y DU. Mae manylion llawn y cynlluniau tramor y gellir eu cydnabod yn y DU i'w gweld yn **www.womenandequalityunit.gov.uk/civilpartnership.htm**

**Rheolaeth fewnfudo**

Mae'n rhaid ichi ddilyn trefn arbennig os ydych am fod mewn partneriaeth sifil gyda rhywun sy'n ddarostyngedig i reolaeth ymfudo (e.e. aros yn y DU neu o dan fisa). Er enghraifft, wrth roi rhybudd, bydd angen ichi fynd eich dau i Swyddfa Gofrestru wedi'i dynodi'n bwrpasol. Am ragor o wybodaeth ynghylch materion mewnfudo, cysylltwch â'r Swyddfa Mewnfudo a Chenedligrwydd ar **0870 606 7766** neu ewch i **www.ind.homeoffice.gov.uk**

# Partneriaeth sifil – eich h

**Mae cofrestru'n benderfyniad difrifol. Yn ogystal â bod yn ymrwy ceir canlyniadau arwyddocaol.**

## Goblygiadau ariannol

Mae goblygiadau ariannol pwysig i gofrestru fel partneriaid sifil neu fyw gyda'ch gilydd mewn perthynas un-rhyw ar ôl 5 Rhagfyr.

### Pensiynau

O Ragfyr 2005 ymlaen, bydd gan bartneriaid sifil y mwyafrif o hawliau pensiwn gwladwriaethol â gwŷr priod ac fe gânt eu trin yr un fath â gwŷr a gwragedd ar ôl 2010 pryd y caiff triniaeth dynion a merched ei chydraddoli. Am wybodaeth bellach, dylech gysylltu â'r swyddfa sy'n delio â'ch pensiwn.

Bydd gan bartneriaid sifil hawl hefyd i bensiwn goroesydd ar sail pensiwn personol neu gynllun pensiwn galwedigaethol lle'r ymryddheir o gontract, neu ar sail pensiwn gwasanaeth cyhoeddus neu gynllun heb ymryddhau o gontract lle telir budd-daliadau goroesydd i wragedd gweddw a gwŷr gweddw ar hyn o bryd. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn ar **0845 6060265** am ragor o wybodaeth.

### Treth

Caiff partneriaid sifil eu trin yr un fath â phobl briod at holl ddibenion y dreth, gan gynnwys treth etifeddiant a threth enillion cyfalaf. Ewch i **www.hmrc.gov.uk** neu cysylltwch â'ch swyddfa dreth am wybodaeth bellach.

### Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol a Chredydau Treth

O 5 Rhagfyr ymlaen, caiff incwm partner sifil neu bartner o'r un rhyw sy'n cyd-fyw ei gymryd i ystyriaeth wrth fwrw cyfrif o'r hawl i fuddion cysylltiedig ag incwm (e.e. ategiad incwm) a chredydau treth. Mae hyn yn golygu y cânt eu trin yr un fath â phâr priod a phâr gwryw a benyw sy'n byw gyda'i gilydd.

Os ydych yn byw gyda'ch gilydd mewn perthynas un-rhyw, ni waeth a gofrestrwch fel partneriaid sifil neu beidio, bydd angen ichi ddweud wrth eich swyddfa budd-daliadau os cewch fuddion cysylltiedig ag incwm, neu wrth y Swyddfa Credydau Treth os hawliwch gredydau treth. Cysylltwch â'r llinell Ymholiadau Budd-dal ar **0800 882200** neu'r llinell cymorth Credydau Treth ar **0845 300 3900** am ragor o wybodaeth.

# hawliau a'ch cyfrifoldebau

**ymiad o bwys sy'n dod â hawliau a chyfrifoldebau fel ei gilydd,**

## Materion teuluol

### Plant a bod yn rhiant

Mae gan rai parau un-rhyw gyfrifoldebau gofal am blant. Bydd y gyfraith yn cydnabod swyddogaeth y ddau bartner sifil yng nghyswllt plentyn sy'n byw ar eu haelwyd.

Pan fydd Deddf Plant a Mabwysiadu 2002 yn dod i rym ar 30 Rhagfyr 2005, bydd rhywun yn cael sicrhau cyfrifoldeb rhiant am blentyn eu partner sifil. Gallant wneud hyn drwy ganiatâd eu partner sifil cyhyd â bod gan y partner gyfrifoldeb fel rhiant eu hun. Os oes cyfrifoldeb rhiant gan riant arall y plentyn hefyd, rhaid i'r ddau riant gytuno. Gellir sicrhau cyfrifoldeb rhiant hefyd drwy wneud cais i'r llys.

Yn ychwanegol, o dan y Ddeddf Plant a Mabwysiadu, bydd modd i barau un-rhyw, gan gynnwys partneriaid sifil, wneud cais am fabwysiadu plentyn ar y cyd.

Am ragor o wybodaeth ynghylch cyfrifoldeb fel rhiant, cysylltwch â'ch Swyddfa Gynghori leol neu â chyfreithiwr cyfraith deuluol. Am ragor o wybodaeth ynghylch mabwysiadu, ewch i **www.everychildmatters.gov.uk/socialcare/lookedafterchildren/adoption** neu cysylltwch â'ch cyngor lleol neu'r asiantaeth mabwysiadu gwirfoddol.

### Cynhaliaeth

Bydd gan bartneriaid sifil ddyletswydd i ddarparu cynhaliaeth ar gyfer ei gilydd ac ar gyfer plant y bartneriaeth sifil.

### Cynnal plant

O 5 Rhagfyr 2005 ymlaen, caiff partneriaid sifil sy'n rhieni eu trin yn yr un modd â phartneriaid priod lle mae Cynnal Plant yn y cwestiwn. Hefyd, fe gaiff rhiant sy'n byw gyda phartner o'r un rhyw, hyd yn oed heb ffurfio partneriaeth sifil, eu trin yr un ffordd â rhiant sy'n byw gyda phartner o'r rhyw arall ond heb fod yn briod. Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, gallai hyn effeithio ar swm y gynhaliaeth a delir ar gyfer eich plentyn. Am wybodaeth bellach dylech gysylltu â'r Asiantaeth Cynnal Plant ar **08457 133133.**

## Hawliau a chyfrifoldebau eraill

**Yn y gweithle**
Bydd yn ofynnol i gyflogwyr drin eu gweithwyr sy'n bartneriaid sifil yn yr un modd â gweithwyr priod o dan amgylchiadau tebyg. Er enghraifft, os yw cwmni'n trefnu i yswiriant iechyd preifat fod ar gael i briod y gweithiwr, bydd yn rhaid i hwnnw fod ar gael hefyd i bartner sifil gweithiwr arall os yw'r gweithwyr yn gwneud swyddi tebyg. Gwelir rhagor o wybodaeth am bartneriaeth sifil i weithwyr yn **www.acas.org.uk**

**Cennad i aros yn y DU**
Bydd modd i bartneriaid sifil dinasyddion Prydeinig a phobl sydd wedi ymsefydlu yma wneud cais am gyfnod cychwynnol o gennad dwy flynedd i aros yn y Deyrnas Unedig. Os daliant yn rhan o'r bartneriaeth sifil ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, bydd hawl ganddynt i wneud cais am gennad benagored i aros yn y DU.

## Pan fydd un partner yn marw

**Etifeddu eiddo** – caiff partner a amddifadwyd ei drin/thrin yn yr un ffordd â gwraig weddw neu ŵr gweddw gyda golwg ar etifeddu ystad eu partner sifil ymadawedig, yn enwedig lle bu farw heb wneud ewyllys.

**Etifeddu tenantiaeth** – bydd gan rywun hawl i etifeddu tenantiaeth eu partner sifil ymadawedig yn yr un modd â gwraig weddw neu ŵr gweddw.

**Aswiriant bywyd** – bydd gan bartneriaid sifil yr hawl i sicrhau aswiriant ar fywyd eu partner sifil ar sail sy'n cyfateb i bobl briod.

**Iawndal damweiniau angheuol** – os bydd person yn marw mewn damwain wedi'i hachosi drwy esgeulustra rhywun arall, yna bydd partner sifil y person hwnnw, neu rywun a fu'n byw gyda'r ymadawedig fel partner sifil am o leiaf 2 flynedd, â hawl i geisio iawndal am golled ariannol. Bydd ganddynt hawl hefyd i geisio iawndal amddifadu.

**Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol** – bydd gan bartneriaid sifil hawl i ddyfarndal anaf angheuol ar yr un sail â phobl briod.

# Os aiff pethau o chwith

### Cynnal perthynas

Bydd problemau'n codi mewn perthnasau na allwch mo'u datrys ar eich pen eich hun efallai. Mae yna bobl eraill y gallwch droi atynt am gyngor neu gwnsel i'ch helpu i weld eich ffordd yn glir drwy'r anawsterau hyn. Cysylltwch â Relate ar **0845 456 1310.**

### Trais domestig

Mae amrywiaeth o amddiffyniadau cyfreithiol ar gael i bob pâr. Mae'r rhain yn cynnwys Gorchmynion Dim Aflonyddu a ddefnyddir i atal rhywun rhag eich bygwth neu beri trais ichi; a Gorchmynion Meddiannaeth sy'n ateb pwy ddylai aros yn y cartref a rennir gan y pâr er mwyn diogelu'r naill ochr neu'r llall (neu unrhyw blant) rhag trais domestig. Gall unrhyw un yr effeithir arnynt gan drais domestig, neu fygythiad trais, ffonio llinell gymorth genedlaethol 24-awr y gwasanaeth trais domestig ar Rhadffon **0808 2000 247** neu Broken Rainbow (fforwm trais domestig ymhlith pobl lesbiaidd, hoyw, deuryw a thrawsrywiol) ar **0845 2604460** (ar gael 9am-1pm; 2pm-5pm). Ar daro, cofiwch bob amser alw'r heddlu drwy ffonio 999.

# Terfynu partneriaeth sifil

Dim ond drwy farwolaeth, diddymu neu ddirymu y gellir rhoi terfyn ar bartneriaeth sifil. Mae diddymu yn broses llys ac, fel gyda phriodas, bydd angen ichi siarad â chyfreithiwr os dymunwch ddiddymu'ch partneriaeth sifil, er na chewch mo'i diddymu lai na blwyddyn ar ôl ei ffurfio.

### Y seiliau dros ddiddymu partneriaeth sifil yw:

- Ymddygiad afresymol;
- Ymwahanu ers 2 flynedd (drwy gydsyniad);
- Ymwahanu ers 5 flynedd (heb gydsyniad);
- Un partner wedi gadael y llall ers 2 flynedd.

Dim ond mewn sefyllfaoedd penodol y bydd dirymu yn gymwys, er enghraifft lle na chydsyniwyd yn ddilys i'r bartneriaeth sifil gan un o'r pâr.

Bydd gan y llysoedd y pŵer i ddarparu ar gyfer rhannu'r eiddo wrth ymwahanu, ar gyfer cynnal y naill bartner sifil neu'r llall, ac ar gyfer trefniadau byw unrhyw blant o dan y bartneriaeth sifil ynghyd â'r trefniadau cysylltu â phlant a'u cynhaliaeth.

# Manylion cysylltu ar gyfer gwybodaeth bellach

**Am wybodaeth bellach ynghylch partneriaeth sifil,** ymwelwch â'r wefan Merched a Chydraddoldeb yn **www.womenandequalityunit.gov.uk/civilpartnership.htm** neu ysgrifennwch i: Civil Partnership, WEU, 1 Victoria Street, Llundain, SW1H 0ET.

**Â diddordeb mewn cofrestru partneriaeth sifil?** Ewch i **www.gro.gov.uk** neu cysylltwch â'ch swyddfa gofrestru leol.

Gall **Stonewall** roi gwybodaeth am ystod eang o faterion sy'n effeithio ar bobl lesbiaidd a hoyw. Ewch i **www.stonewall.org.uk**

Mae'r llyfryn hwn yn sôn yn unig am gofrestru partneriaeth sifil yng Nghymru a Lloegr. Am ragor o wybodaeth ynghylch partneriaeth sifil yn yr Alban, ewch i **www.scotland.gov.uk** ac yng Ngogledd Iwerddon **www.olrni.gov.uk**

## Am ragor o wybodaeth ynghylch:

**Treth** – cysylltwch â'ch swyddfa dreth leol neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

**Pensiynau** – cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn ar **0845 6060265**

**Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol** – cysylltwch â'r llinell Ymholiadau Budd-dal ar **0800 882200**

**Credydau Treth** – cysylltwch â'r llinell cymorth Credydau Treth ar **0845 300 3900**

**Budd-dal Plentyn** – cysylltwch â'r llinell cymorth Budd-dal Plentyn ar **0845 302 1444** neu e-bostiwch **child.benefit@hmrc.gsi.gov.uk**

**Asiantaeth Cynnal Plant** – cysylltwch â **08457 133 133**

**Mabwysiadu** – am ragor o wybodaeth ewch i **www.everychildmatters.gov.uk/socialcare/lookedafterchildren/adoption** neu cysylltwch â'ch cyngor lleol neu'r asiantaeth mabwysiadu gwirfoddol.

**Mewnfudo** – cysylltwch â'r Swyddfa Mewnfudo a Chenedligrwydd ar **0870 606 7766** neu ewch i **www.ind.homeoffice.gov.uk**

**Cefnogi perthynas** – cysylltwch â Relate ar **0845 456 1310**

**Trais domestig** – llinell gymorth 24-awr, Rhadffon **0808 2000 247**

Broken Rainbow (fforwm trais domestig ymhlith pobl lesbiaidd, hoyw, deuryw a thrawsrywiol) **0845 2 60 44 60** (ar gael 9am-1pm; 2pm-5pm).

I archebu copïau pellach o'r llyfryn hwn, cysylltwch â DTI Publications, Admail 528, Llundain, SW1W 8YT, ffôn: **0845 015 0010** gan ddyfynnu URN 05/1485W. Mae'r llyfryn hwn ar gael ar-lein yn **www.womenandequalityunit.gov.uk/civilpartnership.htm** ac mae hefyd ar gael fel ffeil destun ac ar sawl diwyg hygyrch drwy wneud cais.

First published September 2005. Department of Trade and Industry. www.dti.gov.uk/
Crown Copyright. DTI/Pub 7969/300k/09/05/NP. URN 05/1485W

Women& Equality Unit